hamdden a llyfrgelloedd
aura
leisure & libraries

GWEITHDREFN GWYNO

Bob blwyddyn, mae miloedd o gwsmeriaid yn defnyddio gwasanaethau Aura. Er mai ein nod yw i bob profiad fod yn un ardderchog, rydym yn cydnabod y bydd rhywbeth yn mynd o'i le weithiau. Pan fydd hynny'n digwydd, rydym eisiau eu cywiro'n gyflym a dysgu o'n camgymeriadau i wella pethau ar gyfer y tro nesaf.

Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, rydym yn credu ei bod yn well delio gyda phethau ar unwaith. Os bydd gennych bryder, codwch hyn gyda'r unigolyn a'r gwasanaeth rydych yn delio â nhw. Byddant bob amser yn ceisio gwneud eu gorau i ddatrys pethau i chi ac maent yn fwy tebyg o allu darparu'r datrysiad cyflymaf i chi.

Os nad yw hyn yn bosibl, yna gallwch gysylltu â'r arweinydd tîm priodol drwy'r cyfeiriadau e-bost canlynol:

Canolfannau Hamdden	info@aura.wales
Gwersi Nofio	swim@aura.wales
Llyfrgelloedd	libraries@aura.wales
Ardaloedd Chwarae	richard.roberts@aura.wales
Treftadaeth	heritage@aura.wales

Os na fyddwch yn fodlon gyda'r datrysiad ar ôl trafod gyda'r maes gwasanaeth perthnasol a restrwyd uchod, gwahoddir chi i gysylltu â'n uwch dîm rheoli yn SMT@aura.wales ble bydd eich pryderon yn cael eu cyfeirio at y rheolwr priodol ar gyfer datrysiad terfynol.